Ymddiriedolaeth GIG
Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Welsh Ambulance Services
NHS Trust

# YMDDIRIEDOLAETH GIG GWASANAETHAU AMBIWLANS CYMRU

# ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG

# 2022-2023

# Cynnwys

Rhagair....3

1. Cyflwyniad .... 4

2. Ynglŷn â ni .... 4

3. Cefndir i Safonau’r Gymraeg .... 4

4. Cynllun gweithredu Mwy na geiriau 2022-27 ....5

5. Atebolrwydd a Chefnogaeth .... 5

6. Cydymffurfedd â’r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1 i 77).... 7

7. Cydymffurfedd â’r Safonau Llunio Polisi (Safonau 69 i 77).... 14

8. Cydymffurfedd â’r Safonau Gweithredol (Safonau 79 i 114).... 14

9. Cwynion (Safonau 115).... 19

10. Blaenoriaethau ar gyfer 2023-2024 .... 21

# Rhagair

**Croeso! Welcome!**
**Fel Cadeirydd a Phrif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, rydym wrth ein bodd cyflwyno ein pedwerydd adroddiad ar weithredu Safonau'r Gymraeg.**

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn nodi fframwaith cyfreithiol sy'n gosod dyletswydd ar Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, ynghyd â sefydliadau cyhoeddus eraill, i gydymffurfio â'r Safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg ac yn darparu cyfle i gryfhau'r gofynion a gwella safon a hygyrchedd gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae ymrwymiad clir gan y Bwrdd i weithredu'r Safonau ac yn ystod 2022/23 rydym wedi parhau i godi ymwybyddiaeth o ofynion y Safonau drwy gynnwys gofynion y Gymraeg mewn sesiynau sefydlu staff ynghyd â hyrwyddo'r modiwl ar-lein 'Croeso Cymraeg Gwaith' sydd wedi bod yn allweddol wrth gefnogi aelodau staff sydd ar ddechrau eu taith i ddysgu Cymraeg.

Mae Cyflawniadau'r Gymraeg wedi'u cynnwys o fewn Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) 2023-26 yr Ymddiriedolaeth sy'n ymgorffori cynllun gweithredu i roi strategaeth Mwy na geiriau Llywodraeth Cymru ar waith, gyda chanolbwynt ar gynnig gweithredol y Gymraeg ar draws ein gwasanaethau. Caiff cynnydd yn erbyn y CTCI ei fonitro gan Bwyllgor Cyllid a Pherfformiad yr Ymddiriedolaeth, fodd bynnag mae gan y Pwyllgor Pobl a Diwylliant oruchwyliaeth benodol o'r Gymraeg ac un o'i flaenoriaethau ar gyfer 2023/24 yw hyrwyddo'r amcanion cydraddoldeb strategol.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn nodi ein cydymffurfedd â'r Safonau ac mae wedi'i gefnogi gan ddata ar gyfer y cyfnod adrodd 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023. Rydym yn cydnabod ein bod wedi gwneud cynnydd, ond mae gwelliannau pellach wedi'u cynllunio i wella cyflenwad ein gwasanaethau iaith Gymraeg. Er mwyn cyflawni'r gwelliannau hyn, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Chomisiynydd y Gymraeg i sefydlu datrysiadau sy'n diwallu ein hanghenion gweithredol ac yn sicrhau hawliau siaradwyr Cymraeg.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn adlewyrchu effaith gadarnhaol gweithredu Mwy na geiriau a'r egwyddor "Cynnig Rhagweithiol", sy'n golygu cyflenwi gwasanaeth cyfrwng Cymraeg heb fod angen i ddefnyddiwr y gwasanaeth gofyn amdano.



**Colin Dennis,** Cadeirydd



**Jason Killens,** Prif Weithredwr

## 1. Cyflwyniad

Dyma bedwerydd Adroddiad Blynyddol o waith Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn arddangos sut y mae Safonau'r Gymraeg wedi cael eu gweithredu.

Ar 30 Mai 2019, symudodd yr Ymddiriedolaeth o weithredu ei Chynllun yr Iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 i weithredu Safonau'r Gymraeg fel rhan o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i ymateb yn gadarnhaol i Safonau'r Gymraeg gan ei bod yn ei weld fel cyfle i wella safon a hygyrchedd ei gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

## 2. Ynglŷn â ni

Rydym yn dîm o fwy na 4,000 o bobl sy'n gwasanaethu'r 3.1 miliwn o bobl yng Nghymru, ynghyd â chefnogaeth anhepgor yr Ymatebwyr Cyntaf Cymunedol, a gyrwyr ceir gwirfoddol sy'n cludo cleifion o'u cartrefi i apwyntiadau ysbyty a nôl.

Mae'r ganolfan gyswllt 111 yn darparu cyngor a chymorth i filoedd o gleifion, ac yn eu cyfeirio at y gwasanaethau cywir drwy ein gwasanaethau 'Ymgynghori a Chau' . Mae hyn yn cynnwys gwasanaeth GIG 111 Cymru, sy'n darparu cyngor gofal iechyd 24/7 ar lein ac ar y ffôn.

Mae ein Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys (NEPTS) yn cynnig gwasanaeth trin galwadau penodol sy'n delio â dros 1,000 o alwadau'r dydd yn genedlaethol gan gleifion cymwys sydd angen cludiant ambiwlans difrys. Mae'r gwasanaeth NEPTS yn cludo cannoedd o filoedd o gleifion i fan ofal, neu gartref, bob blwyddyn.

Mae ein derbynwyr galwadau brys a staff canolfannau cyswllt clinigol yn delio â dros hanner miliwn o alwadau'r flwyddyn, 24/7 a 365 diwrnod y flwyddyn ac rydym ar reng flaen cyflenwi gwasanaeth, yn sicrhau bod cleifion yn cael y cyngor a chymorth cywir.

## 3. Cefndir i Safonau'r Gymraeg

O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, rhaid i holl sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru cydymffurfio â dyletswyddau iaith, sy'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r dyletswyddau'n annog hyrwyddo'r Gymraeg, defnydd o'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol ac yn ei wneud yn ofynnol bod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer hygyrchedd y Gymraeg i'r cyhoedd.

Mae Adran 44 o fesur 2011 yn caniatáu i Gomisiynydd y Gymraeg gyhoeddi hysbysiad cydymffurfedd, sy'n ei wneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio ag un neu fwy o'r safonau sy'n benodol gymwys iddo. Yna, cyflwynwyd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 i sefydliadau'r sector iechyd yng Nghymru.

Yn unol ag adran 44 o fesur 2011, diben Safonau'r Gymraeg yw darparu'r canlynol:

- Eglurder i sefydliadau ynglŷn â'r Gymraeg
- Eglurder i siaradwyr Cymraeg ynglŷn â pha wasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg.
- Mwy o gysondeb mewn gwasanaethau Cymraeg a gwella'r safon ar gyfer defnyddwyr

### 4. Cynllun Gweithredu Mwy na geiriau 2022-27

Mae **Cynllun Gweithredu Mwy na geiriau 2022-27** y Llywodraeth, a lansiwyd ym mis Awst 2022, yn nodi sut gall gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymraeg gyda'i gilydd, yrru cynnydd o dan y thema gyffredinol diwylliant ac arweinyddiaeth a'r tair thema ganlynol:

- Thema 1 – Cynllunio'r Gymraeg a pholisïau gan gynnwys data.
- Thema 2 – Cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol a'r dyfodol.
- Thema 3 – Rhannu arfer da a dull galluogi.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i hymrwymo i ddarparu'r gweithrediadau fel y'u nodwyd yn y Cynllun Gweithredu fel bod y 'Cynnig Rhagweithiol' yn rhan annatod o safon y gwasanaeth a chyflenwi gwasanaethau ar draws yr Ymddiriedolaeth.

## 5. Atebolrwydd a Chefnogaeth

### 5.1 Arweinwyr a Phencampwyr y Gymraeg

Ochr yn ochr â Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg yr Ymddiriedolaeth, Ysgrifennydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, Trish Mills yw arweinydd gweithredol y Gymraeg sydd wedi bod yn allweddol wrth hyrwyddo datblygiad Fframwaith Iaith Gymraeg newydd sydd wedi'i gynnwys yn CTCI yr Ymddiriedolaeth ac wedi bod yn agor trafodaethau yn Gymraeg sylfaenol. Yn ogystal, mae gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth Cyfarwyddwr Anweithredol, Bethan Evans, sef Pencampwr y Gymraeg y Bwrdd ac sydd wedi bod yn ymwneud â hyrwyddo'r Gymraeg o fewn yr Ymddiriedolaeth i'n staff ac yn allanol i'n defnyddwyr trwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol yr Ymddiriedolaeth.



**Trish Mills,** Ysgrifennydd y Bwrdd



**Bethan Evans,** Cyfarwyddwr Anweithredol

### 5.2 Grŵp Cynghori'r Gymraeg

Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi sefydlu Grŵp Cynghori'r Gymraeg. Mae'r grŵp hwn yn darparu dull ar gyfer arolygu pob agwedd o Safonau'r Gymraeg ac er mwyn sicrhau y cynhelir gwasanaeth boddhaol ar gyfer holl gleifion ac aelodau'r cyhoedd sy'n defnyddio gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth.

### 5.3 Tîm Arweinyddiaeth Cyfarwyddwyr Cynorthwyol

Mae Tîm Arweinyddiaeth Cyfarwyddwyr Cynorthwyol yr Ymddiriedolaeth (ADLT) yn gyfrifol am gefnogi Tîm Rheoli Gweithredol yr Ymddiriedolaeth wrth ddatblygu a darparu cynlluniau ac amcanion strategol, targedau ariannol a chydymffurfedd â gofynion deddfwriaethol, safonau ac arferion.

### 5.4 Pwyllgor Pobl a Diwylliant

Mae Pwyllgor Pobl a Diwylliant yr Ymddiriedolaeth yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd o'i drefniadau arweinyddiaeth, yn monitro cynnydd ac yn ceisio sicrwydd bod yr Ymddiriedolaeth yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol ynglŷn â Safonau'r Gymraeg.

### 5.5 Bwrdd yr Ymddiriedolaeth

Y rhan terfynol o lwybr llywodraethu Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg yr Ymddiriedolaeth yn dilyn ei llwybr cymeradwyaeth gan Grŵp Cynghori'r Gymraeg yr Ymddiriedolaeth, ADLT, y Tîm Rheoli Gweithredol a'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant bydd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth adolygu a thrafod y cynnydd a wnaed wrth gydymffurfio â'r Safonau.

### 5.6 Gweithdrefn cwyno

Derbynnir pryderon ynglŷn â chydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg mewn sawl ffordd e.e., gohebiaeth i'r Prif Weithredwr. Bydd yr holl gwynion a dderbynnir yn cael eu hymchwilio a darperir ymateb gydag unrhyw gamau cywiro gofynnol. Byddai materion yn ymwneud â diogelwch cleifion yn cael sylw o dan Reoliadau Gweithio i Wella.

Os oes gan aelod o'r cyhoedd pryder yn ymwneud â phrofiad diweddar o ddefnyddio gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth, gallant cofnodi eu pryder mewn sawl ffordd gan ddefnyddio'r ffordd sydd fwyaf addas iddynt: anfon e-bost at y tîm cwynion: Amb_PuttingThingsRight@wales.nhs.uk neu lenwi ffurflen ar-lein: Ffurflen Gyflwyno Pryderon Ar-lein

# 6. Cydymffurfedd â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1 i 77)

Mae'r set hon o safonau yn nodi sut y mae gofyn i'r Ymddiriedolaeth defnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd fel y gall siaradwyr Cymraeg gael mynediad dirwystr at wasanaethau gyfrwng Gymraeg; er enghraifft, wrth anfon gohebiaeth, delio â galwadau ffôn, cyflenwi gwasanaethau ar-lein neu wyneb yn wyneb.

## 6.1 Gohebiaeth (Safonau 1 i 7)

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi defnyddio dull cyson o ddefnyddio papur â phennawd a llofnodion e-bost ac mae'n ei wneud yn ofynnol i bob aelod o staff ddefnyddio papur â phennawd dwyieithog yr Ymddiriedolaeth. Rydym hefyd wedi annog yr holl staff i gynnwys neges ar lofnodion e-bost yn nodi bod yr unigolyn yn 'croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg'.

## 6.2 Galwadau ffôn (Safonau 8 i 20)

Nid yw Safonau'r Gymraeg fel y'u gosodwyd ar yr Ymddiriedolaeth yn gosod unrhyw ofyniad cyfreithiol i ateb galwadau 999 yn Gymraeg. O dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 Paragraff 35: Nid yw Safonau 8 i 10 ac 13 i 16 yn gymwys i alwadau a wneir i'r rhif ffôn 999.

Mae galwyr i'r gwasanaeth 111 ac i'r gwasanaeth NEPTS yn derbyn cyfarchiad dwyieithog. Pan fydd yr Ymddiriedolaeth yn sefydlu cysylltiad ffôn gyda defnyddiwr gwasanaeth am y tro cyntaf, bydd y defnyddiwr yn cael ei ofyn a oes well ganddo dderbyn galwadau gan yr Ymddiriedolaeth yn y dyfodol yn Gymraeg neu yn Saesneg. Bydd y dewis iaith yn cael ei nodi a'i barchu. Mae galwadau i 111 a NEPTS yn cynnig opsiwn iaith i alwyr.

### 6.2.1 Arolygu'r gwasanaeth 111

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2022/23, cafodd y gwasanaeth 111 heriau perfformiad sylweddol mewn perthynas â galw digynsail yn y gaeaf. Yn ystod y misoedd hyn, roedd y galw ar y gwasanaethau ar adegau yn herio ein capasiti technegol a staffio i ateb y galwadau mewn modd amserol. Roedd y lefel hwn o weithgaredd yn fwy na'r hyn a welwyd yn ystod frig pandemig COVID-19.

Arweiniodd y brigiad Strep A ym mis Rhagfyr, gweithredu diwydiannol hir, ochr yn ochr ag ymosodiad seibr cenedlaethol dros gyfnod o chwe mis at effaith ar berfformiad cyffredinol y gwasanaeth.

Gwelwyd yr effaith hwn mewn perfformiad cyfradd ateb mewn galwadau Cymraeg a Saesneg.

**Cyfradd galw ac ateb galwadau Cymraeg gwasanaeth 111 GIG Cymru 2022-2023**

| Galw am y Gymraeg | Cyfanswm y galwadau a atebwyd ar gyfer 111 | Galwadau Cymraeg a gynigiwyd | Cyfanswm y galwadau a atebwyd yn Gymraeg | % o alwadau yr atebwyd yn Gymraeg |
|---|---|---|---|---|
| **01/04/22 – 31/03/23** | **766,718** | **15,735** | **2,853** | **18.1%** |
| **01/04/21 – 31/03/22** | **680,161** | **15,341** | **6,949** | **45%** |

* Mae ffigurau/canrannau oren yn cynrychioli cyfnod adrodd 2021/22.

**Gwelliannau i'r gwasanaeth 111 sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg**

Er mwyn rhoi sylw i berfformiad y safon hon mae'r canlynol ar y gweill ac wedi'i gynllunio ar gyfer 2023/24.

1. Datblygiadau gwasanaeth a thechnegol sylweddol i wella perfformiad cyfradd ateb cyffredinol.
2. Recriwtio parhaus o drinwyr galwadau Cymraeg i'r gwasanaeth 111.
3. Hyfforddiant ymwybyddiaeth y Gymraeg ar ddechrau cyflogaeth.
4. Hyfforddiant ymwybyddiaeth y Gymraeg rheolaidd gan ddefnyddio'r fideos a'r deunyddiau hyfforddi mewnol â ffocws.
5. Cynnwys cynllun gwella'r Gymraeg o fewn CTCI y gwasanaeth 111.

Yn ogystal, mae ateb galwadau 111 yn Gymraeg ar gyfer y Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys bellach yn ddangosydd perfformiad allweddol ar lefel y Bwrdd yn yr Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig Misol (AAPhIM).

### 6.2.2 Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys (NEPTS)

Croesewir pob galwr i'n Canolfan Gyswllt NEPTS gyda chyfarchiad dwyieithog ac yna ein system Ymateb Llais Integredig (IVR) sy'n caniatáu i alwyr ddewis eu hiaith ddewisol yn Gymraeg neu yn Saesneg o'r pwynt hwn.  Yn dibynnu ar eu dewis, bydd pob neges yn cael ei chyflwyno yn eu dewis iaith.

Caiff galwyr Cymraeg eu cyfeirio drwy'r IVR i'n derbynwyr galwadau Cymraeg. Os yw ein derbynwyr galwadau Cymraeg yn brysur gyda galwyr eraill, bydd y galwr yn cael ei ail-gyfeirio i'r derbyniwr galwadau Cymraeg neu Saesneg nesaf sydd ar gael i osgoi amser aros diangen. Mae'n bwysig nid yn unig darparu profiad galwad Cymraeg llawn ond hefyd sicrhau nad oes oedi hir yn digwydd os yw ein holl dderbynwyr galwadau Cymraeg yn delio â galwadau eraill.

Defnyddir ein Hasesiad Anghenion Claf i wirio cymhwysedd pob claf ar gyfer cludiant ambiwlans ac mae wedi cael ei gyfieithu'n llawn i'w ddefnyddio gan ein derbynwyr galwadau Cymraeg i wella profiad y galwr.

**Cyfradd galw ac ateb galwadau Cymraeg NEPTS 2022-2023**

| Galw am y Gymraeg | Cyfanswm galwadau a atebwyd ar gyfer NEPTS | Galwadau Cymraeg a gynigiwyd | Cyfanswm y galwadau a atebwyd yn Gymraeg | % y galwadau a atebwyd yn Gymraeg |
|---|---|---|---|---|
| **01/04/22 – 31/03/23** | **200,864** | **1,878** | **1,856** | **98.8%** |

*Mae data galwadau canolfan NET wedi'i gynnwys ar gyfer yr adroddiad blynyddol hwn er mwyn ei halinio gyda'r set data a ddarparwyd gan y gwasanaeth 111. Wrth symud ymlaen, caiff data cymaradwy o'r flwyddyn flaenorol ei gynnwys.

*O'i gymharu â pherfformiad ateb galwadau iaith Gymraeg ar gyfer y gwasanaeth 111, mae NEPTS wedi llwyddo i ateb 98.8% o'i alwadau Cymraeg. Gellir priodoli hyn i'r rhif is a dderbynnir gan wasanaeth NEPTS.

## 6.3 Cyfarfodydd (Safonau 21 i 30)

Pan fydd yr Ymddiriedolaeth yn trefnu cyfarfod gydag aelod neu aelodau o'r cyhoedd, gofynnir i'r mynychwyr os ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Pan fydd unigolion yn mynegi awydd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod, bydd yr Ymddiriedolaeth yn parchu ac yn bodloni'r dewis hwnnw. Mae gan gyfarfodydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr Anweithredol sy'n siarad Cymraeg, a chaiff pob cyfarfod Bwrdd ei ffrydio'n fyw drwy Zoom. Rydym yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio isdeitlau Cymraeg ar gyfer cyfarfodydd Bwrdd yn y dyfodol.

## 6.4 Digwyddiadau cyhoeddus (Safonau 31 i 32)

Mewn perthynas â'r gwasanaethau wyneb yn wyneb a gynigir yn y digwyddiad, bydd gwahoddiad neu hysbyseb y digwyddiad yn gofyn i bobl rhoi gwybod i ni os ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg. Pan fydd hyn yn digwydd, byddwn yn cyflenwi gwasanaeth cyfieithu yn y digwyddiad.

## 6.5 Dogfennau a Ffurflenni (Safonau 36 i 38)

Mae ffurflenni i'w cwblhau gan y cyhoedd ar gael yn y Gymraeg. Mae dogfennau a gynhyrchwyd gan yr Ymddiriedolaeth i'r cyhoedd ar gael yn Gymraeg os yw testun y ddogfen yn awgrymu y dylid ei chynhyrchu yn Gymraeg, neu os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid llunio'r ddogfen yn Gymraeg. Os oes angen fersiynau Cymraeg ar wahân, bydd y fersiwn Saesneg yn datgan bod y ddogfen neu ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg.

## 6.6 Cyhoeddusrwydd a Deunyddiau hysbysebu (Safonau 33 i 34)

Mae ymgyrch cyfathrebu dwyieithog cenedlaethol ar gyfer GIG 111 Cymru wedi gorffen yn ddiweddar. Bwriad yr ymgyrch oedd codi ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a ffydd yn GIG 111 Cymru, gan gynnwys y wefan, a helpu cleifion gydag anghenion gofal brys cael y gofal iawn, yn y lle cywir, y tro cyntaf.

Dechreuodd cam cyntaf yr ymgyrch farchnata aml-sianel hon ar 14 Tachwedd 2022, gyda hysbysebu cymdeithasol a digidol y tu allan i'r cartref taledig ac organig. O 28 Chwefror 2023, dechreuodd cam dau gyda hysbyseb deledu newydd ar ITV, S4C a Video on Demand – gallwch wylio'r hysbyseb teledu yma. Roedd ail gam yr ymgyrch hefyd yn cynnwys hysbyseb radio digidol, hysbysebu digidol, cyfryngau cymdeithasol (organig a thaledig), hysbysebu y tu allan i'r cartref a gweithgaredd dylanwadwyr. Roedd pecyn cyfryngau cymdeithasol a phecyn asedau poster ar gael i randdeiliaid eu lawrlwytho a'u rhannu.

.

.







## 6.7 Gwefannau a Gwasanaethau ar-lein (Safonau 39 i 43)


Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal dau wefan: Gwefan corfforaethol sydd wedi cael ei ail-ddatblygu gyda chyfleuster i newid rhwng y ddwy iaith, a gwefan Galw iechyd Cymru a chafodd ei ail-frandio ym Mai 2020 i GIG 111 Cymru www.111.wales.nhs.uk.

### 6.7.1 Gwefan 111


Yn ystod y cyfnod adrodd, derbyniodd y wefan **4,550,981** (4,187,031) golwg, gyda **12,554 (0.27%)** (33,664 (0.62%)) golwg i'r wefan Cymraeg.

Ers lansio gwefan newydd GIG 111 Cymru, mae'r wefan wedi bod yn gweithredu ei chyfrifon cyfryngau cymdeithasol Twitter Cymraeg a Saesneg ei hun @GIG111Cymru gyda **105** (81) o ddilynwyr ac @NHS111Wales gyda **7,282** (7,022) o ddilynwyr.



## Gwirwyr symptomau gwefan 111




Trwy wrando ar adborth defnyddwyr y gwefan, rydym yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr ar draws yr Ymddiriedolaeth i ehangu'r ystod o wirwyr symptomau sydd ar gael yn Gymraeg drwy'r wefan, gan alluogi defnyddwyr i wirio eu symptomau a derbyn cyngor ar-lein ynglŷn â beth i wneud nesaf. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, datblygwyd **14** gwiriwr newydd a'u rhoi ar gael yn Gymraeg a Saesneg:

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Anaf coes | Poen a chwyddo ar yr wyneb | Poen neu chwydd y pen-glin | Poen neu chwyddo troed | Anaf ffêr | Blinder | Llewygu |
| Torri gwynt | Poen neu Chwyddy y Ceilliau | Crychguriadau | Rhithweledigaethau | Llosgiadau | Anaf bys | Problemau cysgu |

Cyfanswm y gwirwyr symptomau **dwyieithog** sydd bellach ar gael yw **65**.

## Datblygiadau gwefan 111

Cynhaliwyd adran 'Gofal Wedi'i Gynllunio' newydd ar hafan gwefan 111 ar ran Llywodraeth Cymru, gan ddarparu data ar ba mor hir roedd pobl ym mhob Bwrdd Iechyd Lleol yn aros i gael eu cyfeirio atynt neu i fod o dan ofal arbenigwr.
Yn ystod mis Rhagfyr, roedd cynnydd yn y term chwilio 'y dwymyn goch' eisoes wedi'i ganfod cyn achosion a adroddwyd yn y cyfryngau a galwadau i wasanaeth teleffoni 111. Er mwyn cefnogi'r bobl iach gofidus ac eraill, datblygwyd gwybodaeth am ofalu am blentyn sâl, Strep A a'r Dwymyn Goch.' Cyfieithwyd hwn yn gyflym i'r Gymraeg.

Gyda gŵyl y banc pedwar diwrnod dros y cyfnod yr ŵyl, atgoffwyd defnyddwyr am gynllunio ymlaen llaw ac fe'u cynghorwyd am yr hyn a allent ei wneud y tu allan i oriau a heb bresgripsiwn. Roedd rota fferyllfa Cymru gyfan hefyd ar gael.

Trwy weithio gyda Thîm Prosiectau 111, mae sawl dudalen ar draws y wefan wedi'u hail-ddylunio gyda'r Gymraeg mewn golwg, gan gynnwys y Gwyddoniadur, Gwirwyr Symptomau a Gwasanaethau Lleol i greu cysondeb dylunio a gwella hygyrchedd ac optimeiddio ar gyfer defnyddwyr dyfeisiau symudol, sef ein mwyafrif o ymwelwyr.

## 6.8 Cyfryngau cymdeithasol (Safonau 45 i 46)

Mae’r Ymddiriedolaeth yn gweithredu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Cymraeg a Saesneg ar wahân ar gyfer Facebook a Twitter.




**Isod mae dadansoddiad o ymgysylltu ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol yr Ymddiriedolaeth yn ystod y cyfnod adrodd.**

### Twitter

| | @Ambiwlans_Cymru | | @WelshAmbulance | |
|---|---|---|---|---|
| | 2022-23 | 2021-22 | 2022-23 | 2021-22 |
| **Dilynwyr newydd** | 42 | 59 | 1,385 | 1,906 |
| **Cyfanswm yr argraffiadau** | 113,351 | 191,100 | 2,440,000 | 4,806,500 |
| ***‘Retweets’ (heb sylwadau)** | 625 | | 4,693 | |
| **‘Likes’** | 485 | 366 | 12,400 | 16,188 |
| ***Clics ar ddolenni** | 38 | | 7,300 | |

* Mae ffigurau/canrannau oren yn cynrychioli’r cyfnod adrodd 2021/22.
* Ychwanegiadau newydd felly nid oes unrhyw ddata blaenorol tebyg ar gael.

Noder: mae cyfanswm y nifer o Tweets yn amrywio rhwng y ddau gyfrif oherwydd y rhesymau canlynol:

- Mae ‘Tweets’ yn cynnwys Tweets dyfynedig sy’n cael eu cyhoeddi’n fwy aml ar ein cyfrif Saesneg o ganlyniad i asiantaethau eraill, megis gwasanaethau ambiwlans y DU eraill, yn peidio â rhoi cynnwys yn Gymraeg.
- Mae cliciau ar ddolenni yn cynnwys defnyddwyr yn clicio ar ddolenni rydyn ni yn darparu yn y capsiynau. Er enghraifft, yn ystod gweithredu ddiwydiannol, ar ddewis o bostiadau defnyddion ni ddolen i fynd i’r dudalen Cwestiynau Cyffredin.

### Facebook

| | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | | Welsh Ambulance Services NHS Trust | |
|---|---|---|---|---|
| | 2022-23 | 2021-22 | 2022-23 | 2021-22 |
| **Dilynwyr newydd** | 27 | 59 | 1,959 | 4,647 |
| **‘Likes’ newydd ar y dudalen** | 10 | 28 | 1,029 | 2,237 |
| ***Cyfanswm yr ymweliadau â’r dudalen** | 1,259 | | 43,566 | |
| ***Cyfanswm cyrhaeddiad y dudalen** | 65,794 | | 939,342 | |
| ***Ymateb/‘likes’, sylwadau a rhannu** | 491 | | 100,0084 | |

* Ychwanegiadau newydd felly nid oes unrhyw ddata blaenorol tebyg ar gael.
* Mae ffigurau/canrannau oren yn cynrychioli’r cyfnod adrodd 2021/22.

## 6.9 Arwyddion a Hysbysiadau (Safonau 47 i 49)

Mae'r holl arwyddion newydd yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog gyda'r Gymraeg wedi'u lleoli fel ei bod yn debygol o gael ei darllen gyntaf. Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhyrchiwyd arwyddion allanol a mewnol newydd ar gyfer swyddfeydd yr Ymddiriedolaeth yng Nghwmbrân.







## 6.10 Gwasanaethau derbynfa (Safonau 50 i 53)

Pan fo gennym wasanaeth derbynfa, mae'r modiwl ar-lein 'Croeso Cymraeg Gwaith' ar gael i'r staff sy'n gweithio mewn ardaloedd derbynfa er mwyn datblygu eu sgiliau Cymraeg ac i fod yn gallu cyfarch ymwelwyr yn ddwyieithog. Mae cymorth Cymraeg hefyd ar gael gan Reolwr Gwasanaethau'r Gymraeg yr Ymddiriedolaeth.

## 6.11 Dyfarnu contractau (Safonau 57 i 59)

Bydd gwahoddiadau i dendro yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog os yw pwnc y gwahoddiad i dendro yn awgrymu y dylai gael ei gyhoeddi yn y Gymraeg, neu os yw'r gynulleidfa ddisgwyliedig, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylai'r testun cael ei gyhoeddi yn y Gymraeg. Gellir cyflwyno tendrau yn Gymraeg, ac ni chaiff tendr sydd wedi'i gyflwyno yn Gymraeg ei drin yn llai ffafriol na thendr wedi'i gyflwyno yn Saesneg.

Ni chafodd unrhyw dendr na chontract ei gyhoeddi yn Gymraeg ac ni dderbyniodd unrhyw un yn Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

## 6.12 Cyrsiau hyfforddi (Safon 63)




Ar gyfer unrhyw gwrs addysg rydym yn ei gynnig i'r cyhoedd, rydym yn gwahodd y gynulleidfa i roi gwybod i ni am ei dewis iaith, nail ai Cymraeg neu Saesneg, i gymryd rhan yn y cwrs. Mae 'Shoctober' yn ymgyrch ymwybyddiaeth flynyddol mis o hyd  sy'n rhedeg pob mis Hydref ac sydd wedi'i chynllunio i ymgysylltu, addysgu, a hysbysu dysgwyr oedran ysgol gynradd am ddefnydd priodol o wasanaethau 999 a sgiliau achub bywyd hanfodol. Gofynnir i ysgolion am eu dewis iaith er mwyn darparu'r sesiynau naill ai yn Gymraeg neu Saesneg.

## 6. Cydymffurfedd â'r Safonau Llunio Polisi (Safonau 69 i 77)

Mae holl bolisïau newydd a weithredir gan yr Ymddiriedolaeth yn destun Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) y mae'r Gymraeg yn llinyn cydraddoldeb safonol lle gofynnir i staff sy'n llunio polisïau newydd neu ddiwygiedig ystyried yr effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol a allai ddeillio o'r polisi hwnnw ar gyfer y Gymraeg. Mae cefnogaeth Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg ar gael i unrhyw gydweithiwr sy'n cwblhau EqIA ac mae'n weithdrefn safonol ar gyfer pob polisi newydd a diwygiedig.

O fis Ebrill 2017, sefydlodd yr Ymddiriedolaeth gweithdrefn polisi diwygiedig ar draws yr Ymddiriedolaeth sy'n sicrhau bod strwythur cadarn ar waith, a thrwy hynny i adolygu polisïau presennol neu ddatblygu polisïau newydd.

## 8. Cydymffurfedd â'r Safonau Gweithredol (Safonau 79 i 114)

Mae'r set hon o Safonau Gweithredol yn delio â'r ffordd y mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio'r Gymraeg yn fewnol ac yn rhoi'r hawl i gyflogeion dderbyn gwasanaethau Adnoddau Dynol yn eu hiaith ddewisol.

### 8.1 Polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol (Safon 79)

Fel rhan o Fframwaith y Gymraeg newydd yr Ymddiriedolaeth bydd polisi newydd i hyrwyddo defnydd y Gymraeg o fewn yr Ymddiriedolaeth yn cael ei ddatblygu ar gyfer y defnydd ffurfiol a chymdeithasol y Gymraeg ymhlith ein gweithlu drwy ddysgu rheolaidd a mwy o gyfranogiad mewn amrywiaeth o rwydweithiau a digwyddiadau ffurfiol ac anffurfiol. Rhan o'r gwaith hwn yw cyflwyno Gwobr y Gymraeg fel un o gategorïau ar gyfer Gwobrau Staff blynyddol yr Ymddiriedolaeth. Mae'r wobr er mwyn cydnabod staff sydd wedi helpu hyrwyddo'r Gymraeg a gwella darpariaeth ddwyieithog yng ngofal iechyd.




O'r pum enwebiad a dderbyniwyd ar gyfer Gwobr y Gymraeg 2022, Cerrie Douglass, Clinigydd Desg Cymorth Clinigol oedd yr enillydd eleni am ei defnydd o'r Gymraeg o fewn natur cymhleth y ddesg cymorth glinigol.

### 8.2 Dogfennau cyflogaeth (Safonau 80 i 81)

Nid yw unrhyw aelod o staff wedi gofyn i ni ddarparu unrhyw ddogfen sy'n gysylltiedig â chyflogaeth gael ei darparu yn Gymraeg h.y., dogfennau sy'n amlinellu anghenion neu ofynion hyfforddi; dogfennau sy'n amlinellu amcanion perfformiad; dogfennau sy'n amlinellu cofnod neu gynllun gyrfa; ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi gwyliau blynyddol; ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi absenoldeb o'r gwaith a ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi oriau gweithio hyblyg.

Rydym wedi sicrhau bod y dogfennau canlynol: newid i oriau, estyniadau secondiad a chontract cyflogaeth wedi cael eu cyfieithu os bydd unrhyw aelod o staff yn dymuno eu derbyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Pan fo Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) yn dyfarnu contractau cyflogaeth (drwy'r broses recriwtio o fewn TRAC), anfonir y rhain yn Gymraeg ac yn Saesneg.

### 8.3 Recriwtio ac Apwyntio (Safonau 106 i 109)

Defnyddir siartiau llif arweiniad/proses i gynorthwyo rheolwyr cyn hysbysebu unrhyw swydd. Mae'r broses isod yn rhoi manylion y gwasanaethau cyfieithu yn ogystal â rhywfaint o eiriad hysbyseb a swydd-ddisgrifiad safonol i gynorthwyo rheolwyr. Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth cyfieithu gyda Bwrdd Iechyd Brifysgol Betsi Cadwaladr wedi'i sefydlu i gefnogi anghenion cyfieithu'r Ymddiriedolaeth.

Mae'r ffurflen asesu a gyflwynwyd gennym ar gyfer pob rheolwr i'w chwblhau i helpu asesu gofynion y Gymraeg ar gyfer swyddi yn parhau i gael ei defnyddio. Mae hyn yn rhan o nifer o bwyntiau gwirio eraill, cyn i swydd gael ei rhyddhau ar gyfer hysbyseb.


### 8.4 Asesu a chofnodi sgiliau Cymraeg ar draws y gweithlu (Safonau 96 a 116)

O gyfanswm o **4,375** o aelodau staff, mae **3,906 (89.28%)** 4,283 (87.23%) o weithlu'r Ymddiriedolaeth wedi hunanasesu a chofnodi eu sgiliau Cymraeg ar y Cofnod Electroneg Staff (ESR).
Isod, sgiliau gwrando/siarad Cymraeg sydd wedi'u cofnodi ar ESR fesul cyfarwyddiaeth:

| Cyfarwyddiaeth | Gofynnol | Cyflawnwyd | % Cydymffurfedd |
|---|---|---|---|
| Llywodraethu Corfforaethol | 7 | 7 | 100% |
| Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr | 19 | 15 | 78.95% |
| Cyfarwyddiaeth Ddigidol | 52 | 51 | 98.08% |
| Cyfarwyddiaeth Gyllid ac Adnoddau Corfforaethol | 107 | 98 | 91.59% |
| Cyfarwyddiaeth Feddygol a Chlinigol | 56 | 55 | 98.21% |
| Cyfarwyddiaeth Weithrediadau | 3883 | 3437 | 88.51% |
| Cyfarwyddiaeth Bartneriaethau ac Ymgysylltu | 12 | 12 | 100.00% |
| Cyfarwyddiaeth Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion | 130 | 127 | 97.69% |
| Cyfarwyddiaeth Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad | 17 | 14 | 82.35% |
| Cyfarwyddiaeth Bobl a Diwylliant | 92 | 90 | 97.83% |

### 8.5 Sgiliau Cymraeg y proffil staff – Gwrando/Siarad

| 0 – Dim sgiliau | 1 - Mynediad | 2 - Sylfaen | 3 - Canolradd | 4 - Uwch | 5 - Hyfedredd | Anhysbys | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2450 | 772 | 293 | 185 | 172 | 434 | 8 | 4314 |




### 8.6 Swyddi newydd a Swyddi gwag (Safonau 117)

Mae'r tabl isod yn cadarnhau'r swyddi a hysbysebwyd rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023:

Cyfanswm y swyddi a hysbysebwyd: **405** **(456).** Caiff yr holl swydd-ddisgrifiadau eu cyfieithu i'r Gymraeg.

| Categori | Nifer y swyddi wedi'u categoreiddio | | Canran y swyddi a hysbysebwyd | |
|---|---|---|---|---|
| | **2022-23** | **2021-22** | **2022-23** | **2021-22** |
| Hanfodol | **6** | **8** | **1.4%** | **1.7%** |
| Dymunol | **393** | **441** | **97%** | **97%** |
| Angen ei dysgu | **0** | **0** | **0%** | **0%** |
| Ddim yn angenrheidiol | **6** | **6** | **1.4%** | **1.3%** |

* Mae ffigurau/canrannau oren yn cynrychioli'r cyfnod adrodd 2021/22.

Swyddi Cymraeg hanfodol a hysbysebwyd:

- Derbynnydd galwadau'r Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys (NEPTS)

Cafodd cyfweliadau am swyddi gwag eu hwyluso yn Gymraeg yn dilyn ceisiadau gan ymgeisydd y swydd.

Er mwyn sicrhau bod ein defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwasanaethau yn eu dewis iaith, mae ffrwd waith pwrpasol wedi cael ei datblygu fel rhan o Gynllun Gweithlu Strategol cyffredinol WAST. Bydd gwaith yn mynd rhagddo yn 2023-24 i nodi lefelau sgiliau Cymraeg staff yr Ymddiriedolaeth a nodi'r bylchau yn y sgiliau hynny wrth ddarparu'r cynnig rhagweithiol i'n defnyddwyr gwasanaeth.

### 8.7 Hyfforddiant (Safon 97)

Rydym yn cynnig y canlynol drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â'r Safon hwn:
- recriwtio a chyfweld
- rheoli perfformiad
- gweithdrefnau cwyno a disgyblu
- sefydlu
- delio â'r cyhoedd
- iechyd a diogelwch

Nid ydym wedi ymgymryd â hyfforddiant ar gyfer Rheoli Perfformiad na Weithdrefnau Cwyno a Disgyblu yn ystod y cyfnod y mae'r adroddiad hwn yn ei gwmpasu. Yn gyffredinol, cynhelir hyfforddiant ar gyfer y meysydd hyn pan gytunir ar newid allweddol mewn polisi a/neu weithdrefn, a phan fyddai'n rhaid i ni sicrhau bod rheolwyr yn ymwybodol o'r newid a'i oblygiadau ar eu rheolaeth o staff drwy un o'r prosesau hyn.

Fodd bynnag, gallwn gadarnhau os bydd angen hyfforddiant yn y meysydd hyn, gofynnir i ymgeiswyr os hoffent gael yr hyfforddiant yn Gymraeg. Byddai sesiwn drwy gyfrwng y Gymraeg (yn dibynnu ar y rhif) yn cael ei threfnu neu drwy ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

### 8.8 Hyfforddiant a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd.

| Math o hyfforddiant | Nifer a fynychodd y fersiwn Gymraeg | Nifer a fynychodd y fersiwn Saesneg | Canran a fynychodd y fersiwn Gymraeg |
|---|---|---|---|
| **Recriwtio a chyfweld** | Dim un wedi'i ddarparu | | |
| ***Rheoli perfformiad** | 0 | 26 | 0 |
| **Gweithdrefn cwyno a disgyblu** | Dim un wedi'i ddarparu | | |
| **** Sefydlu** | 0 | 424 | 0 |
| **Delio â'r cyhoedd** | Dim un wedi'i ddarparu | | |
| *****Iechyd a diogelwch** | 0 | 72 | 0 |

*Cyflwynwyd gweithdrefn PADR diwygiedig ym mis Tachwedd 2022 i gynnwys yr elfen newydd llesiant ac ymddygiad yr Ymddiriedolaeth. Datblygwyd cyflwyniad i fynd drwy holl agweddau'r weithdrefn PADR a'r broses cynnydd cyflog. Mae hwn ar gael yn Saesneg ar hyn o bryd ond bydd ar gael yn Gymraeg yn 2023/24.
** Nid oes unrhyw un wedi gofyn i'm sefydlu digwydd yn Gymraeg, fodd bynnag, mae gan bob Diwrnod Croeso WAST lle caiff aelodau staff newydd eu cyflwyno i'r Ymddiriedolaeth elfen o Gymraeg ynddo (rhoi cyfarchiad dwyieithog, fideo ymddygiadau WAST Gymraeg a chyfeiriad at safonau'r Gymraeg a deunyddiau dysgu, a darperir rhai ohonynt yn Gymraeg).
*** Cwrs hyfforddi achrededig IOSH a gyflwynir yn rhyngwladol yw hwn, ac nid yw ar gael yn Gymraeg.

### 8.9 Hyfforddiant i wella sgiliau Cymraeg (Safonau 99 i 101)

Mae'r modiwl ar-lein 'Croeso Cymraeg Gwaith' wedi bod yn allweddol i'r Ymddiriedolaeth wrth gefnogi staff sydd ar ddechrau eu taith i ddysgu Cymraeg ac mae **303** **(294)** o aelodau staff wedi cofrestru ar y modiwl e-ddysgu Cymraeg i ddechreuwyr a hwylusir gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gyda **97** wedi cwblhau'r cwrs.

### 8.10 Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg (Safonau 102 i 103)

Mae 'Diwrnod Croeso' yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ac ymgymerodd cyfanswm o **424** **(340)** o aelodau staff â'r hyfforddiant hwn yn ystod y cyfnod adrodd.

### 8.11 Hyfforddi'r Gymraeg




Nododd 7 Rhagfyr 2022 Diwrnod Hawliau'r Gymraeg sef y dyddiad y pasiwyd Mesur y Gymraeg (Cymru), y ddeddfwriaeth a wnaeth yr hawliau'n bosibl, gan y Senedd.

Datblygwyd y fideo hwn gan yr Ymddiriedolaeth i gefnogi Diwrnod Hawliau'r Gymraeg a'i hyrwyddo ar ei llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal, hyrwyddwyd cyngor, ac arweiniad i staff yr Ymddiriedolaeth ar sut y gallant gydymffurfio â safonau'r Gymraeg.

## 9. Cwynion (Safonau 115)

Isod, mae rhestr o gwynion a dderbyniwyd yn 2022/23, ynghyd â chrynodeb o gamau gweithredu a gymerwyd. Derbyniwyd pum gwyn:

| | Cwyn | Ymateb a cham gweithredu |
|---|---|---|
| **1** | Cychwynnodd Comisiynydd y Gymraeg ymchwiliad a phenderfynodd fod yr Ymddiriedolaeth wedi methu â chydymffurfio â safonau 1 a 7 sy'n delio ag anfon a derbyn gohebiaeth. | Mae'r staff sy'n delio a gohebiaeth allanol wedi derbyn sesiynau ymwybyddiaeth gydymffurfio ar gyfer anfon a derbyn gohebiaeth yn Gymraeg fel canlyniad. |
| **2** | Cwyn a dderbyniwyd gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â gwefan 111, nad yw'r adran "Gwasanaethau a gynigir" ar bob un o dudalennau'r darparwr gofal sylfaenol yn cynnwys unrhyw wybodaeth ynghylch pa wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg. | Cysylltwyd â Byrddau Iechyd Lleol i ddarparu gwybodaeth am eu darpariaeth gwasanaethau Cymraeg o fewn gofal sylfaenol y gellir ei adlewyrchu ar wefan 111. |
| **3** | Cwyn a dderbyniwyd gan Aelod o'r Senedd ynglŷn â safon y gwasanaeth llinell ffon Cymraeg ar gyfer trefnu cludiant ysbyty (NEPTS). | Cynhaliwyd gwaith gwella ar system teleffoni NEPTS a chyfeirio galwadau ar gyfer galwadau Cymraeg. |
| **4** | Cwyn a dderbyniwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg bod gwefan 111 yn datgan yn anghywir bod gan nifer o ddeintyddfeydd wasanaeth Cymraeg. | Ar ôl cyflwyno ymateb i Gomisiynydd y Gymraeg, cadarnhaodd y Comisiynydd yn ddiweddarach na fydd yn cynnal ymchwiliad statudol gan mai dyletswydd y byrddau iechyd lleol yn unol â safon 65 oedd cyhoeddi gwybodaeth ar eu gwefannau ynglŷn â pha ddarparwr gofal sylfaenol sy'n darparu eu gwasanaethau yn Gymraeg. Gofynnodd y Comisiynydd a oedd yn bosibl i'r Ymddiriedolaeth ystyried integreiddio'r wybodaeth hon (a gasglwyd gan y byrddau iechyd lleol) i wefan https://111.wales.nhs.uk/, neu ystyried datgan ar dudalennau perthnasol gwefan GIG 111 y dylai gwybodaeth am ba ddarparwyr gofal sylfaenol sy'n darparu eu gwasanaethau yn Gymraeg fod ar gael ar wefannau unigol pob bwrdd iechyd.<br><br>Mae'r geiriad ar gyfer pob deintyddfa wedi'i ddiwygio er mwyn nodi y dylai defnyddwyr gwasanaeth cysylltu â'r |


| | | |
|---|---|---|
| | | gwasanaeth yn uniongyrchol i drafod darpariaeth / mynediad at y gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| **5** | Cwyn a dderbyniwyd ynglŷn â thudalen we NEPTS a oedd yn cynnwys fideo yn y Saesneg yn unig ac mai dim ond trwy fersiwn Saesneg y dudalen we y cafwyd mynediad at fersiwn Gymraeg holiadur cleifion. | Mae'r fideo ar dudalen we NEPTS bellach ar gael yn Gymraeg ac mae'r dolenni yn yr holiadur cleifion wedi cael eu gwirio a bellach yn mynd at y tudalennau we Cymraeg. |

## 10. Blaenoriaethau ar gyfer 2023-2024

**Fframwaith Iaith Gymraeg**

Byddwn yn gweithredu ein Fframwaith Iaith Gymraeg a fydd yn sicrhau bod yna strwythur, trylwyredd, llywodraethu a chysondeb ar gyfer datblygu'r Gymraeg ar draws yr Ymddiriedolaeth sy'n cwmpasu cydymffurfedd â gofynion statudol Safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a chyflawni'r camau gweithredu o fewn Cynllun Gweithredu Mwy na geiriau 2022-27.

Mae cyflawniadau'r Gymraeg o'r tu mewn i'r fframwaith wedi'u cynnwys yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) 2023-26 lle bydd cynnydd yn cael ei adrodd gan Bwyllgor Pobl a Diwylliant Bwrdd yr Ymddiriedolaeth.




Bydd canoli cyfieithu'r Gymraeg yn galluogi'r Ymddiriedolaeth i gwrdd â'r cynnydd yn y galw am ofynion cyfieithu Cymraeg Safonau'r Gymraeg, a chael gwasanaeth cyfieithu sy'n addas i'r diben a all ymateb i ddefnyddwyr gwasanaeth a staff WAST mewn ffordd ddwyieithog.

**Mwy na geiriau**

Mae gwaith wedi symud ymlaen i gyflawni'r camau gweithredu ym Mlwyddyn 1 y cynllun gweithredu a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru i'w adolygu. Er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo ar lefel uchaf y sefydliad a bod dealltwriaeth eang o'r cynnig rhagweithiol mae Ysgrifennydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Trish Mills) wedi'i henwi'n Bencampwr Gweithredol y Bwrdd i'r Gymraeg ynghyd â Chyfarwyddwr Anweithredol (Bethan Evans) fel pencampwr ychwanegol.

Yn unol â Gweithrediad 10 a 18 'Mwy na geiriau', datblygwyd ffrwd waith Gymraeg penodol fel rhan o Gynllun Gweithlu Strategol cyffredinol WAST. Bydd gwaith yn mynd rhagddo yn 2023-24 i nodi lefelau sgiliau Cymraeg staff yr Ymddiriedolaeth a nodi'r bylchau yn y sgiliau hynny wrth ddarparu'r cynnig rhagweithiol i'n defnyddwyr gwasanaeth.

## Gwybodaeth bellach

I gael rhagor o wybodaeth am Safonau'r Gymraeg, cysylltwch â:

Melfyn Hughes
Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Tŷ Elwy
Ffordd Richard Davies
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0LJ

E-bost: Melfyn.hughes@wales.nhs.uk